**Adolygwyd: Mis Ionawr 2017**

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP

PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

# Cynllun Gweithredu Rhywogaeth: Britheg y Gors

## Cyflwyniad

### Cwmpas

Mae'r cynllun gweithredu rhywogaeth hwn ar gyfer Britheg y Gors (*Euphydryas aurinia). *Fodd bynnag, bydd nifer o'r camau sy'n ceisio gwarchod y rhywogaeth hon yn cael eu cyfeirio tuag at y cynefinoedd maen nhw'n dibynnu arnyn nhw a dylid cyfeirio at y Cynlluniau Gweithredu Cynefin perthnasol sy'n cael eu henwi yn yr adran cynlluniau a pholisïau cysylltiedig isod.

### Datganiad o Weledigaeth

Cadw a chyfoethogi nifer a dosbarthiad Brithegion y Gors yn Sir Benfro a chynyddu gwytnwch poblogaethau yn erbyn newid amgylcheddol.

## Disgrifiad o'r Rhywogaeth

Pili pala o faint canolig â darnau melyn ar gefndir orengoch yw Britheg y Gors. Mae'r oedolion yn hedfan o fis Mai tan fis Mehefin. Mae'r larfae'n cydfyw mewn gwe sidan ar eu planhigyn bwyd, tamaid y cythraul (*Succisa pratensis*) a gellir adnabod y rhain yn hawdd yn ystod diwedd yr haf. Mae'r larfae yn treulio'r gaeaf yn isel yn y llystyfiant er mwyn osgoi rhew ac maen nhw'n dod allan yn ystod y gwanwyn canlynol.

Dwedir bod Britheg y Gors yn byw mewn metaboblogaethau - grŵp o gytrefi lleol sydd wedi eu cysylltu ag ambell wasgariad, ac o'u mewn mae difodiannau a gwladychu lleol. Mae o leiaf 0.5km o gynefin anaddas rhwng pob grŵp, sydd mwy na

thebyg yn cyfyngu ar gyfnewid unigolion yn rhydd. Credir bod angen o leiaf 40 hectar o gynefin addas i gynnal metaboblogaeth.

Mae'r rhywogaeth yn byw mewn dau fath arbennig o gynefin: glaswelltiroedd sych calchaidd yng nghanol de Prydain, a glaswelltiroedd niwtral/asidig llaith drwy ran fwyaf o'i gyrhaeddiad ble mae'r planhigyn lletyol larfaol yn bresennol. Yn ddelfrydol, dylai glaswelltir gwlyb sy'n gymorth i boblogaethau o Frithegion y Gors dderbyn digon o bori i gynnal tywarchen sydd â strwythur llystyfiant sy'n amrywiol - mosäig o uchder tywarchen wedi ei bori rhwng 5cm-25cm gydag ambell sypwellt dros 25cm i roi microhinsawdd i helpu larfa i ddatblygu. Mae pori defaid yn anaddas, gan fod yn well gan ddefaid bori'r planhigyn bwyd larfaol a chynhyrchu tywarchen homogenaidd.


# Dosbarthiad yn Sir Benfro

Mae pili pala Britheg y Gors i'w weld mewn naw metaboblogaeth yn Sir Benfro fel y gwelir yn Ffigwr 1. Y rhain yw:

1. Mynachlog-ddu
2. Treamlod – Cas-mael
3. Tyddewi
4. Gweunydd Yerbeston
5. Keeston-Tiers Cross
6. Castell Martin
7. Poblogaethau Prin yng ngogledd-ddwyrain Sir Benfro
8. Poblogaethau Prin yng ngogledd-orllewin Sir Benfro
9. Poblogaethau Prin yng nghanol Sir Benfro.

**Ffigwr 1.** Metaboblogaethau Britheg y Gors Sir Benfro

**Adolygwyd: Mis Ionawr 2017**



**Adolygwyd: Mis Ionawr 2017**

# Maint y Boblogaeth

Mae niferoedd yr unigolion mewn poblogaeth yn newid yn gylchol bob blwyddyn wrth ymateb i'r hinsawdd, ysglyfaethwyr a pharasitiaid. Mae data o Warchodfa Natur Genedlaethol Rhos Llawr Cwrt yng Ngheredigion yn dangos bod o leiaf 10 mlynedd o gylch rhwng y mwyafrif/lleiafrif ac felly rhaid gosod y data a gasglwyd o safleoedd Sir Benfro dros gyfnod byrrach yn y cyd-destun hwn.

Er mwyn sefydlu statws Britheg y Gors yn Sir Benfro mae angen monitro rhagor o safleoedd bob blwyddyn. Er mwyn gwneud hyn, yn 2013 datblygodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Gwarchod Glöynnod Byw Cymru a chofnodwyr lleol Strategaeth Cofnodi a Monitro Britheg y Gors Sir Benfro i helpu sefydlu monitro safonedig, sy'n gallu cael ei ailadrodd ar o leiaf un safle ym mhob un o fetabobologaethau presennol Sir Benfro. Nid yw'r monitro wedi cynhyrchu digon o ddata i allu asesu maint y boblogaeth eto. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth o arolygon diweddar yn dangos bod Britheg y Gors mewn perygl difrifol o ddiflannu mewn pedwar allan o naw metaboblogaeth. Felly mae'n debygol bod maint y boblogaeth yn Sir Benfro wedi dirywio.

# Tueddiadau

Mae niferoedd Britheg y Gors wedi dirywio'n sylweddol ar draws Ewrop. Mae'r DU bellach yn un o gadarnleoedd y rhywogaeth yn Ewrop. Mae'n ymddangos ei bod wedi diflannu o nifer o'i gyn-safleoedd yn y DU yn ystod y 30 mlynedd diwethaf a bod y poblogaethau bellach i'w gweld gan amlaf yn ne a de-orllewin Lloegr, gorllewin yr Alban a Chymru.

Yng Nghymru, bu'r prif golledion yn y dwyrain a'r gogledd-orllewin yn ogystal â chadarnleoedd Cymreig y de a'r de-orllewin. Mae rhyw 160 cytref yn dal i fodoli ond mae tua 50% o'r rheiny dan fygythiad o ganlyniad i golli cynefin, rheoli anaddas neu amddifadu amaethyddol. Mae nifer o'r poblogaethau sydd ar ôl yn dal i fod ar safleoedd sydd ddim yn cael eu gwarchod ac mae llawer yn agored i niwed oherwydd eu bod yn fach. Mae pum maes allweddol o'r ugain sy'n cael eu nodi yng Nghynllun Gweithredu Gwarchod Rhywogaethau Glöynnod Byw ar gyfer y rhywogaeth hon yng Nghymru.

Rhwng 1982 a 1985, mae data cenedlaethol yn dangos bod poblogaethau wedi ehangu a bod y gloÿnnod byw'n symud mwy rhwng safleoedd metaboblogaeth. Efallai bod y pili pala'n fwy llonydd yn ystod y blynyddoedd diweddar, yn aros yn y safleoedd craidd yn ystod tymhorau o dywydd gwael.

Mae Strategaeth Cofnodi a Monitro Britheg y Gors Sir Benfro yn dal i fynd, ond nid yw'r monitro wedi cynhyrchu digon o ddata i allu asesu tueddiadau'r boblogaeth leol yn llawn eto.

Mae'r dystiolaeth o arolygon diweddar yn dangos bod y rhywogaeth yn ffynnu ym metaboblogaethau Castell Martin, Treamlod/Puncheston a Mynachclogddu. Mae'n ymddangos bod metaboblogaethau Gweunydd Yerbeston a de-ddwyrain Sir

Benfro'n isel ond mae niferoedd cyfyngedig yn cael eu gweld yn rheolaidd. Yn Nhyddewi, Keeston/Tiers Cross, poblogaethau unigol yng ngogledd-orllewin Sir Benfro a chanol Sir Benfro mewn perygl difrifol o ddiflannu. Hefyd, nid yw'n ymddangos bod nifer o'r poblogaethau anghysbell yn rhan o'r metaboblogaethau cynaliadwy, hyfyw. Does dim digon o gysylltedd gan yr un o'r poblogaethau i sicrhau cyfnewid parhaus o unigolion rhwng safleoedd o fewn pob poblogaeth. Felly mae'n debygol bod tueddiad y boblogaeth yn Sir Benfro yn dirywio.

# Statws cadwraeth

**Ewrop:** Mae Britheg y Gors yn cael ei gwarchod o dan Gonfensiwn Bern ac mae wedi ei rhestru yn Atodiad II Cyfarwyddeb Cynefin a Rhywogaeth CE 1992.

**DU:** Mae Britheg y Gors yn cael ei gwarchod o dan Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, 1981. Mae'n rhywogaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ac yn nodwedd sy'n cael ei henwi yn Ardal Cadwraeth Arbennig Gweunydd Blaencleddau, Ardal Cadwraeth Arbennig y Preseli ac Ardal Cadwraeth Arbennig Yerbeston Tops.

# Bygythiadau

A. **Colli a darnio cynefin:** Mae darnio o ganlyniad i golli cynefin neu waethygu ansawdd cynefin yn arwain at ynysu poblogaethau bychain. Y bygythiad mwyaf i Fritheg y Gors yn Sir Benfro yw tan-bori a llechfeddiannu llwyni neu wair cors porffor yn arwain at waethygu ansawdd a maint cynefinoedd addas. O dro i dro, mae gor-bori neu ddiffyg rheoli pori wedi effeithio ar safleoedd Sir Benfro - yn enwedig ar y comins. Y raddfa bori optimaidd ar gyfer safleoedd o ansawdd uchel yw 0.1-0.4 o unedau da byw/ha/llath[1], er efallai y bydd rhaid cynyddu'r graddfeydd i ddechrau wrth reoli'r adferiad. Mae angen ystyried hyn fesul safle, sydd ddim wastad yn bosibl o dan dermau cynlluniau amaeth-amgylchedd. Mae'n siŵr y gallai pob safle o fewn y metaboblogaethau hyn gynnal ardaloedd mwy o gynefin "addas" ac sydd mewn "cyflwr da" petaent yn cael eu rheoli'n well. Byddai'r rhan fwyaf o safleoedd yn elwa o drefniadau pori mwy addas, er y byddai angen torri a llosgi, yn enwedig yn ystod y cyfnod adfer. Gallai gwella'r rheoli o bosib newid tynged metaboblogaethau'r Sir sy'n dirywio. Mae draenio a newid y defnydd sy'n cael ei wneud o'r tir (fel coedwigo) yn fygythiadau eilradd.

B. Dim ond rhannau bychain iawn o gynefin mae'r rhan fwyaf o gytrefi'n eu meddiannu, fel arfer llai na 2ha a dim ond 15% o'r darnau sy'n cael eu meddiannu sy'n fwy na 10ha. Mae angen rhwydwaith o ddarnau o gynefin mewn

[1] Mae unedau da byw yn cael eu defnyddio i ddiffinio'r pwysau pori sy'n cael ei roi gan fathau gwahanol o stoc. Mae'n seiliedig ar anghenion bwydo ac nid yw'n ystyried gwahaniaethau mewn effeithlondeb pori na thueddiad i sathru/potsio'r tir rhwng y mathau o stoc. Felly mae'n rhaid nodi'r pwysau pori a'r math o stoc er mwyn rheoli cadwraeth.

cyflwr addas ar fetaboblogaethau, er mwyn i gytrefi allu bodoli. Mae gwaith ar frithegoedd eraill wedi dangos bod hyd at 60% o'r cynefin angenrheidiol yn wag o hyd ond mae ei angen er mwyn i'r metaboblogaeth oroesi. Mae pwerau gwasgaru'r pili pala hwn yn amrywio o fewn cylch naturiol y metaboblogaeth a gyda ffactorau hinsawdd. Fodd bynnag, mae cynefin anaddas fel coetir trwchus neu ffermdir âr yn ogystal â hyd at 1km o laswelltir agored ond gwag yn cyfyngu ar wasgaru. Mae darnio cynefin a newidiadau blynyddol yn y boblogaeth, sy'n nodweddiadol o'r rhywogaeth hon, yn cynyddu'r bygythiad o ddifodi lleol. Mae angen cynnal a chadw arwynebeddau mawr o dir gyda rhwydweithiau o gynefin addas, gwag rhyngddyn nhw.

C. **Parasitiaid:** Un rheswm difrifol dros larfa yn marw a maint y boblogaeth yn newid o flwyddyn i flwyddyn yw'r wenynen barasitig *Cotesia* (=*Apanteles) bignellii.* Gall pob cenhedlaeth o larfa pili pala ffurfio'r llety ar gyfer hyd at dair cenhedlaeth o wenyn. Mae larfa instar cyntaf y glöyn byw'n cael ei chwistrellu ag wyau gwenyn yn ystod mis Gorffennaf, gan ffurfio lindysyn sy'n bwydo ar y larfae, a'u lladd ym mis Awst pan maen nhw'n ffurfio eu cocynau eu hunain. Mae gwenyn aeddfed yn ymddangos mewn da bryd i heintio'r larfae sy'n paratoi eu gwe gaeafgysgu, ble mae'r lindysyn *Cotesia* yn gorffwyso dros y gaeaf. Mae'r larfae lletyol yn cael eu lladd yn y gwanwyn canlynol ac mae gwenyn aeddfed yn ymddangos yn fuan ar ôl hynny i ddodwy trydedd genhedlaeth o wyau sy'n datblygu yn larfae Britheg y Gors wrth iddyn nhw gychwyn eu hinstar olaf. Ambell flwyddyn, gall gwenyn parasitig ladd 75% o'r boblogaeth larfaol.

D. **Newid hinsawdd**: Gall newidiadau tymor hir yn yr hinsawdd achosi newidiadau yng nghyfansoddiad ac ecoleg rhywogaethau. Nid yw'n hysbys i ba raddau y byddan nhw'n newid, na'u harwyddocâd, a bydd angen monitro yn y tymor hir. Gallai newid tymor byr yn y tywydd, fel cyfres o hafau gwlyb neu glaear, leihau'r potensial gwasgaru a gallai effeithio ar lwyddiant bridio. Mae tywydd y gwanwyn hefyd yn effeithio ar raddfeydd parasitiaid.

Mewn mannau ble mae'r poblogaethau'n fach, mae difodi yn fwy tebygol os yw'r ffactorau cynefin eraill yn is-optimaidd.

# Cynlluniau a Pholisïau Cysylltiedig a Gwybodaeth Bellach

Dyma gynlluniau / polisïau eraill sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y rhywogaeth hon yn Sir Benfro:

- Cynllun Rheoli Ardal Cadwraeth Arbennig y Preseli: https://naturalresources.wales/media/673203/Preseli%20SAC%20management%20plan.pdf
- Cynllun Rheoli Ardal Cadwraeth Arbennig Gweunydd Blaencleddau: https://naturalresources.wales/media/672462/Gweunydd%20Blaencleddau%20Mplan%20English.pdf

- Cynllun Rheoli Ardal Cadwraeth Arbennig Yerbeston Tops: https://naturalresources.wales/media/674433/yerbeston-moors-tops-sac-plan-english.pdf
- Cynllun Gweithredu Cynefin Glaswelltir. E-bostiwch: biodiversity@pembrokeshire.gov.uk am gopi.
- Cynllun Gweithredu Cynefin Iseldir Ffermdir. E-bostiwch: biodiversity@pembrokeshire.gov.uk am gopi.
- Taflen Wybodaeth Gwarchod Glöyn Byw Britheg y Gors. Ar gael fan hyn: http://butterfly-conservation.org/files/habitat-marsh-fritillary.pdf

# Camau Presennol ac Argymhellion ar gyfer y Dyfodol

**Monitro ac arolygu:** Yn ôl Strategaeth Cofnodi a Monitro Britheg y Gors Sir Benfro, mae CNC a gwirfoddolwyr yn monitro dau fetaboblogaeth Britheg y Gors yn safonedig bob blwyddyn - metaboblogaeth Mynachlogddu (ar Ardal Cadwraeth Arbennig Gweunydd Blaencleddau) a metaboblogaeth Castell Martin (ar Arfordir Calchfaen Ardal Cadwraeth Arbennig De-orllewin Cymru). Bydd CNC, Gwarchod Glöynnod Byw Cymru a gwirfoddolwyr yn monitro metaboblogaeth Yerbeston (ar Ardal Cadwraeth Arbennig Yerbeston Tops a rhai o SaDdGAau Yerbeston). Bydd Gwarchod Glöynnod Byw Cymru a gwirfoddolwyr yn monitro'r metaboblogaeth ar gomins Treamlod a Puncheston. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro yn monitro'r poblogaethau prin yng Ngogledd-ddwyrain Sir Benfro yn yr holl ardaloedd ble mae ganddyn nhw gytundebau rheoli (Ffynnon Samson, Penrallt-ddu a Rhosfarchned Fawr).

**Rheoli tir:** Mae nifer o'r safleoedd ble mae Britheg y Gors yn byw neu wedi byw yn y gorffennol yn gomins sydd heb gael eu rheoli'n iawn. Roedd rhai o'r safleoedd hyn (ond nid pob un) yn rhan o brosiect Partneriaeth Gweundir Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Roedd ailgyflwyno trefn bori addas er mwyn adfer cynefin i Fritheg y Gors (yn enwedig ar safleoedd sy'n agos at fetaboblogaeth) yn flaenoriaeth. Nid yw hyn wedi cael ei gyflawni eto. Mae'n rhaid i reolwyr ganolbwyntio ar gynnal a chadw ac ehangu trefniadau pori addas i bob safle Britheg y Gors. Mae rhai safleoedd allweddol yn cael eu rheoli o dan gytundebau rheoli gyda CNC ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir  Benfro. Mae Comin Dowrog a llawer o safleoedd Tyddewi'n cael eu rheoli'n garedig gan Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Er gwaethaf hyn, tan-bori a llechfeddiannu llwyni yw'r bygythiadau mwyaf difrifol a phwysig sy'n wynebu Britheg y Gors yn Sir Benfro. Felly mae angen cynyddu'r lefelau pori ar ran fwyaf o'r safleoedd. Mae angen ailsefydlu trefniadau pori addas ar safleoedd sydd wedi cael eu gadael. Efallai bydd yn rhaid torri, clirio llwyni a llosgi er mwyn paratoi'r safleoedd hyn i'w pori.

**Cyngor/cysylltu:** Mae cyngor a chyswllt rhwng perchnogion tir, partneriaid cadwraeth a mudiadau eraill er mwyn gwella dealltwriaeth o anghenion cynefin yn hanfodol. Mae pob tirfeddiannwr sy'n rhan o Grŵp Cofnodi Britheg y Gors Sir Benfro wedi cael gwybodaeth.

**Adolygwyd: Mis Ionawr 2017**

# Amcanion y Cynllun

| **Rhif** | **Amcan** | **Llinell Derfyn** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| MF01 | Cynnal ystod a/neu boblogaeth Britheg y Gors yn Sir Benfro (dylai bod o leiaf 50% o'r safleoedd hysbys yn cynnal gwe larfaol bob blwyddyn a dylai'r rhain gynnwys y safleoedd yn ardaloedd Mynachlogddu a Yerbeston). | Cyfredol: adolygiad 2022 | |
| MF02 | Ehangu ystod a/neu boblogaeth Britheg y Gors yn Sir Benfro er mwyn creu cyfres o fetaboblogaethau hyfyw, gwydn. | Cyfredol: adolygiad 2022 | |
| MF03 | Monitro poblogaethau a chyflwr cynefinoedd mewn safleoedd hysbys er mwyn hysbysu rheolwyr Britheg y Gors yn Sir Benfro. | Cyfredol: adolygiad 2022 | |

**Adolygwyd: Mis Ionawr 2017**

# Camau

| Cod | Cam | Adrodd Erbyn | Arweinydd | Cynnydd / Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| MF01.01 | Hyrwyddo systemau a chymorth i ffermwyr sy’n eu galluogi i gynnal a chadw cynefin addas, cynnwys gofynion cynefin Britheg y Gors mewn presgripsiynau ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylchedd ble mae’r cynefin yn ymddangos yn addas. | Adolygiad nesaf: Mis Ionawr 2022 | CNC | |
| MF01.02 | Annog/ailsefydlu rheoli pori addas ar safleoedd sy’n cynnal poblogaethau ac ar gyn-safleoedd drwy gael cyngor ymarferol a chytundebau rheoli. | Adolygiad nesaf: Mis Ionawr 2022 | CNC/Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro/Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru/Ymddiriedolaeth Genedlaethol | |

**Adolygwyd: Mis Ionawr 2017**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| MF02.01 | Nodi darpar gynefin sy'n agos at bob metaboblogaeth. Annog rheoli addas drwy gael cyngor ymarferol a chytundebau rheoli. | Adolygiad nesaf: Mis Ionawr 2022 | CNC/Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro/Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru | |
| MF03.01 | Cadw golwg safleoedd hysbys a chyn-safleoedd yn flynyddol ble mae rheolaeth wedi cael ei adfer. Monitro cyflwr y cynefin. | Adolygiad nesaf: Mis Ionawr 2022 | CNC/Gwarchod Glöynnod Byw Cymru/Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | |
| MF01.03 | Adolygu'r cynllun hwn erbyn Mis Ionawr 2022. | Mis Ionawr 2022 | PBP | |